

Daearyddiaeth Ddynol

Amser - 1.5 awr

Rhowch gynnig ar DDAU gwestiwn.

1. Pa effeithiau y mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o'u cael ar wahanol rannau o'r byd a sut y gallai gwladwriaethau arwain y ffordd i leddfu'r heriau hyn?
2. Sut y gallai defnyddio technolegau clyfar (e.e. ffonau clyfar, technolegau gwisgadwy, biometreg ac ati) fod yn newid ystyr yr hyn yw bod yn ddinesydd?
3. Beth sydd gan ddaearyddiaeth ddynol i'w gyfrannu i ddealltwriaethau o'r refferendwm Ewropeaidd diweddar a sut y gallai ein cynorthwyo i ddehongli'r canlyniadau?
4. Beth y mae argyfwng ffoaduriaid o Syria yn ei ddangos i ni ynglŷn â syniadau am ymfudo a symudedd pobl?
5. Sut y byddai un sy'n arbenigo ar ddaearyddiaeth ddynol yn astudio'r rhyngrwyd?
6. Ai datblygu cynaliadwy yw'r ateb i broblemau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y byd?
7. Mae globaleiddio yn nodi diwedd daearyddiaeth fel disgyblaeth. Trafodwch hyn gan gyfeirio at enghreifftiau a astudiwyd gennych.
8. Ym mha ffordd y mae gwybodaeth am ddaearyddiaeth ddynol yn gwella'n dealltwriaeth o'r rhesymau am derfysgaeth?
9. Trafodwch rai ffyrdd penodol y gall map ddylanwadu ar ein canfyddiad o'r realaeth y mae'r map i fod i'w adlewyrchu.
10. Mae prinder tai enbyd yn nifer o ddinasoedd mwyaf y byd. Gan gyfeirio at un o'r dinasoedd mawr hynny y tu allan i'r Deyrnas Gyfunol, disgrifiwch achosion ac effeithiau prinder o'r fath, a thrafod sut y gellid mynd ati i'w datrys.